1968-2008 40
Gwarchod Glöynnod Byw
40 mlynedd o achub glöynnod byw, gwyfynod a'u cynefinoedd

MOTHS COUNT

Bywydau gwyfynod

Cylch bywyd

Mae gwyfynod yn dodwy wyau, ac o'r rhain mae lindys (neu larfâu) yn deor sy'n ymborthi ar wahanol fathau o blanhigion. Mae lindys rhai gwyfynod yn bwyta un planhigyn yn unig, tra bod eraill yn gallu byw ar rychwant ehangach o rywogaethau. Y dail a fwyteir ganddynt fel rheol, ond mae rhai lindys yn bwyta blodau, ffrwythau, coesynnau neu wreiddiau. Mae rhai'n ymborthi y tu fewn i ddail neu goesynnau planhigion, ac mae rhai hyd yn oed yn byw dan y dŵr! Y lindysyn yw'r unig cam yn y cylch bywyd sy'n tyfu'n fwy, ac wrth iddo wneud hyn mae'n ffurfio croen meddal newydd dan yr hen groen, sy'n hollti wedyn ac yn cael ei fwrw i adael i'r corff chwyddo.

Pan fydd y lindysyn wedi cyrraedd ei lawn dwf, rhywbeth sy'n gallu cymryd rhwng rhai wythnosau a sawl blwyddyn, yn ôl y rhywogaeth, mae'n chwilera i ffurfio pwpa neu chwiler. Mae llawer o lindys yn turio i'r pridd neu'n cuddio dan ddail meirwon i chwilera, tra bod eraill yn ei wneud ar blanhigion. Yn aml maent yn adeiladu cocŵn neu sidangod yn gyntaf, naill ai â'r sidan y maent y ei gynhyrchu yn eu cyrff eu hunain neu â darnau o ddeunydd o blanhigion, ac yn chwilera y tu fewn. Mae lindys y Gwyfyn Titw'n defnyddio darnau o risgl wedi'u cnoi i adeiladu cocwnau ar foncyffion coed; mae hyn yn golygu bod y cocŵn nid yn unig wedi'i guddliwio'n berffaith ond hefyd yn galed iawn!

Y tu fewn i'r pwpa mae corff y lindysyn yn ei ad-drefnu ei hun i droi'n wyfyn. Mae hyn yn gallu cymryd rhwng rhai wythnosau a blwyddyn gyfan, yn ôl y rhywogaeth. Pan ddaw'r gwyfyn allan o'r pwpa mae ei adenydd wedi crychu ac mae angen iddynt gael eu hestyn cyn iddo allu hedfan. Mae rhai gwyfynod yn hedfan dros bellterau byr yn unig, tra bod eraill yn teithio ymhellach o lawer, o Ogledd Affrica i Brydain er enghraifft. Mewn rhai rhywogaethau, megis Rhisglyn y Morfa, nid oes gan y gwyfyn benywaidd adenydd o gwbl, ac nid yw'n symud ymhell o blisgyn ei phwpa.

Rhisglyn y Morfa gwrywaidd a benyw ddiadain P.Pugh

Wyau'r Gwaswyfyn M.Parsons

Mae'r rhan fwyaf o wyfynod llawn dwf yn byw am gyfnod byr, rhwng rhai dyddiau a rhai wythnosau yn ôl y rhywogaeth, er bod y gwyfynod hynny sy'n gaeafu'n byw am fisoedd. Mae llawer o wyfynod yn ymborthi ar neithdar, yn debyg i löynnod byw, ond mae yna rai rhywogaethau byrhoedlog nad ydynt yn bwyta o gwbl.

Mae gwyfynod benywaidd yn denu gwrywod ag arogleuon (fferomonau) y mae'r gwrywod yn eu synhwyro â'u teimlyddion (antenâu). Ar ôl paru mae'r benywod yn dodwy rhwng cant a rhyw fil o wyau. Mae'r rhan fwyaf o wyfynod yn dodwy wyau ar blanhigyn addas, fel y bydd y lindys yn deor ar y math o fwyd priodol, ond mewn rhai rhywogaethau mae'n rhaid i'r lindys chwilio am y math iawn o blanhigyn er mwyn cael bwyta.

Mae gwyfynod yn goroesi'r gaeaf mewn sawl ffordd. Mewn rhai rhywogaethau nid yw'r wyau a gafodd eu dodwy eleni'n deor tan y gwanwyn nesaf, pan fydd digonedd o fwyd. Mae llawer mwy o rywogaethau'n treulio'r gaeaf fel lindys, gan aros ynghwsg tan y gwanwyn, er bod rhai'n gallu ymborthi yn ystod cyfnodau o dywydd mwyn. Mae eraill, megis y Gwalchwyfynod, yn gaeafu fel pwpaod, trwy ymochel rhag yr oerfel dan y pridd. Ac yn olaf, mae rhai rhywogaethau wedi cyrraedd eu llawn dwf eisoes erbyn y gaeaf. Mae'r rhan fwyaf o'r math hwn yn gaeafu megis Cennad y Gaeaf, ond mae yna rai sy'n hedfan ac yn atgenhedlu yn ystod y gaeaf, megis Gwyfyn Rhagfyr a Brychan y Gaeaf sydd wedi'u henwi mor briodol ill dau.

Mae cylchoedd bywyd gwyfynod wedi'u cydamseru'n ofalus â rhai'r planhigion y maent yn ymborthi arnynt, fel y bydd y lindys yn deor ar adeg pan fydd eu bywyd yn doreithiog. Mae rhai ysglyfaethwyr, megis yr adar sy'n dibynnu ar lindys i fwydo eu cywion, hefyd yn 'amseru' eu cyfnod bridio fel y bydd yn cyd-daro â chylchoedd bywyd y gwyfynod. Mae yna gryn bryder bellach y gallai newidiadau yn yr hinsawdd amharu ar y cydberthnasau bregus hyn. Pan fo amseriad y tymhorau'n newid, mae planhigion, gwyfynod a'u hysglyfaethwyr yn annhebyg o ymateb yn yr un modd (nac ar yr un cyflymder), ac mae'n bosibl o ganlyniad na fydd cylchoedd bridio'n parhau i gyd-daro â'r cyflenwad bwyd. Fe allai hyn olygu canlyniadau trychinebus ar gyfer rhai rhywogaethau.

Lindysyn y Cathwyfyn R.Leverton

Lindysyn Cwcwll y Pannog R.Leverton

Lindysyn Bidog y Masarn R.Leverton

Cadw'n fyw

Mae gwyfynod yn chwarae rôl hanfodol ym mywydau llawer o blanhigion ac anifeiliaid: fel llysysyddion sy'n bwyta planhigion, fel peillwyr blodau llu o blanhigion, a fel bwyd i rychwant eang o anifeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cacwn a phryfed parasitig y mae eu larfâu'n ymborthi y tu fewn i gyrff lindys, ynghyd ag ystod eang iawn o ysglyfaethwyr sy'n amrywio o chwilod, pryfed clust a phryfed cop i amffibiaid, madfallod a mamaliaid bach. Mae llawer o adar yn bwyta gwyfynod a lindys, ac yn eu bwydo'n enwedig i'w cywion. Maent yn cynnwys Titw Tomos Las, y Robin Goch, y Dryw, y Deryn Du a'r rhan fwyaf o adar yr ardd sy'n gyfarwydd inni, yn ogystal â rhywogaethau sydd mewn perygl o ddiflannu megis y Betrisen Lwyd a Gylfinir y Gerrig.

Yn eu hymdrechion i osgoi cael eu bwyta gan ysglyfaethwyr, mae gwyfynod wedi datblygu gwahanol strategaethau. Mae'r oedolion a'r lindys fel ei gilydd yn gallu defnyddio cuddliw i osgoi denu sylw, naill ai drwy liwiau a phatrymau cynnil sy'n ymdebygu i'r cefndir naturiol, neu batrymau eofn sy'n torri ar draws eu proffil fel nad yw eu siâp mor amlwg. Mae rhai wedi datblygu siapiau sy'n eu cuddwisgo fel pethau eraill; mae rhai lindys er enghraifft yn edrych yn debyg i frigau ac yn sefyll yn llonydd ar ôl cael eu styrbio i gadarnhau'r twyll. Mae lindysyn yr Emrallt Blotiog yn glynu darnau o ddail sychion ar hyd ei gorff fel cuddliw.

Mae rhywogaethau eraill yn gwisgo lliwiau llachar a phatrymau amlwg i rybuddio ysglyfaethwyr eu bod yn blasu'n annymunol, megis oedolyn a lindysyn Teigr y Benfelen a lindysyn Cwcwll y Pannog. Mae gan rai smotiau tebyg i lygaid neu glytiau llachar arnynt i frawychu neu ddrysu ysglyfaethwyr, megis oedolyn yr Ymerawdwr a lindysyn y Cathwyfyn. Mae gan yr un olaf hwn rywbeth ar ei ben ôl sy'n edrych fel colyn pigo, a felly hefyd lindysyn y Gwalchwyfyn, er bod y "colynnau" mewn gwirionedd yn ffug. Mae gan lindys eraill flew neu wrych, sy'n annymunol i'w llyncu gan ysglyfaethwyr ac weithiau wedi'u lliwio i'w rhybuddio eu bod yn llidio. Mae'n well peidio â chyffwrdd â lindys blewog felly!

Gwyfynod yw un o brif fwydydd ystlumod, sy'n defnyddio system ecoleoli i'w dal yn y tywyllwch. I ochel rhag cael eu bwyta mae rhai gwyfynod wedi datblygu "clustiau" i synhwyro'r seiniau ecoleoli a gynhyrchir gan yr ystlumod sy'n eu hela. Wrth i'r gwyfynod hyn "glywed" ystlum yn dod maent yn syrthio i'r ddaear, yn newid cyfeiriad, neu'n hedfan mewn dolennau a throellau i osgoi cael eu dal. Mae rhai gwyfynod yn gallu creu synau hyd yn oed i ddrysu neu frawychu ystlumod, neu i'w rhybuddio eu bod yn blasu'n gas yn yr un ffordd â'r gwyfynod sy'n gwisgo lliwiau llachar.

Mae Gwalchwyfyn y Penglog yn defnyddio seiniau mewn ffordd arall: mae'n gallu dynwared y gwichiadau a wneir gan y famwenynen, ac yn llwyddo felly i ymborthi ar fêl y tu fewn i'r cwch gwenyn heb i'r haidd ymosod arno!

Mae mwy o wybodaeth am wyfynod ar gael ar wefan Cyfrif Gwyfynod **www.mothscount.org** ac yn:

- **Enjoying Moths** R. Leverton, Poyser 2001.
- **Moths** M. Majerus, Harper Collins 2002.
- **The Natural History of Moths** M. Young, Poyser 1997.

Gwalchwyfyn y Benglog L.Hill

www.mothscount.org

Butterfly Conservation Manor Yard East Lulworth Wareham Dorset BH20 5QP Ffôn: 01929 406009 nmrs@butterfly-conservation.org www.butterfly-conservation.org
Dyluniwyd gan nectarcreative 01942 681648.